"Wele, yr wyf yn dod yn fuan, a'm gwobr gyda mi i'w rhoi i bob un yn ôl ei weithredoedd. Myfi yw Alffa ac Omega, y cyntaf a'r olaf, y dechrau a'r diwedd." **(Dat.22:12-13)**

Dyma neges gan yr Arglwydd Iesu o ogoniant y nefoedd. Mae'n neges gysurlon i'w bobl, sef y bydd yn dod yn ôl i'r byd cyn hir, a bod popeth yn ei law ac o dan ei lywodraeth.

Yr Alffa a'r Omega

Dyma lythrennau cyntaf ac olaf yr wyddor Roeg. Yn Gymraeg, fe fyddem yn sôn am yr 'a' a'r 'y', er nad ydym yn gwneud hynny'n aml. Mae'n debyg bod y defnydd Saesneg o 'A-Z' yn llawer mwy cyfarwydd i ni.

Mae pawb wedi gweld llyfrau ar ryw bwnc neu'i gilydd. 'The A-Z of Gardening' , er enghraifft, sydd yn honni cynnwys popeth sydd angen ei wybod am y pwnc hwnnw. Faint ohonom sydd wedi defnyddio map o ddinas o'r enw 'The A-Z...' er mwyn dod o hyd i ryw fan arbennig yn y ddinas fawr honno. Wrth gyfeirio at lythrennau cyntaf ac olaf yr wyddor, awgrymir fod popeth wedi ei gynnwys.

Crist

Mae Crist yn dweud fod pawb a phopeth yn hanes y bydysawd wedi ei gynnwys o dan ei arglwyddiaeth ef. Does neb na dim cyn Crist, sef Duw y Mab, ac ni fydd neb na dim ar ei ôl. Does neb na dim o'i flaen mewn blaenoriaeth, nac o ran amser. Fydd neb na dim ag unrhyw beth y gellir ei ychwanegu ato yn y diwedd chwaith.

Roedd ef yno ar ddechrau'r byd, oherwydd: **"Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod"** (Ioan 1:3). Bydd ef yno yn y diwedd, oherwydd ei ddyfodiad ef fydd yn dod â llen hanes i lawr.

Pen ar bopeth

Mae'r gwirionedd yma yn cael ei fynegi hefyd gan yr apostol Paul. Yn Effesiaid 1.10 mae'n dweud mai ewyllys Duw yw: **"dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist, gan gynnwys popeth yn y nefoedd ac ar y ddaear."** Mae'r gair Groeg am 'dwyn i undod' yn y cymal hwn yn cynnwys y gair *cephale,* sef 'pen'. Efallai fod rhai o'r darllenwyr wedi clywed am y salwch '*encephalitis*' sef 'llid yr ymennydd'.

Felly, ewyllys Duw yw gosod Crist Iesu yn ben ar bopeth a phawb yn y

nef ac ar y ddaear. Popeth ysbrydol a materol, popeth uwch ein pen ac oddi tanom, a phopeth y tu mewn i ni.

Popeth er ei fwyn

Wrth ysgrifennu at y Colosiaid, mae Paul yn dweud mai Crist oedd *dechrau* a *diben* y Creu: **"Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu"** (Col.1:16). Crewyd popeth trwy Grist, sef Duw y Mab, a chrewyd popeth er ei fwyn.

Ymhellach na hynny, mae'r Gair yn dweud mai Crist sydd yn cynnal y greadigaeth hefyd: **"Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll"** (Col. 1:17). Felly, ni allwn feddwl am ystyr na phwrpas i'r greadigaeth heb Grist.

Ond gyda gwrthryfel gardd Eden, roedd Satan yn ceisio ei osod ei hun yn ben, a rhwygo'r greadigaeth oddi wrth Grist. Mae pechod wedi dod i rwygo rhwng y Crewr a'i greadigaeth.

Cynllun adfer

Roedd Duw wedi cynllunio ffordd i adfer y greadigaeth dan law Crist eto. Y ffordd i symud effaith pechod oedd i Dduw ddod yn ddyn, i'r Crewr ddod yn greadur, a dioddef canlyniadau pechod ar ein rhan, ac yna: **"ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd"** (Col. 1:20).

Wrth wneud hyn, ac wrth atgyfodi i goncro diafol, pechod ac angau, enillodd Crist yr hawl eto i fod yn ben ar bopeth.

Cysur

I mi, mae cysur aruthrol yn y gwirionedd hwn. Mewn byd sy'n ymddangos mor afresymol, gyda chymaint o ddioddef diangen, cymaint o drychineb, cymaint o wahaniaethu anesboniadwy rhwng dynion a'i gilydd, cymaint o wahaniaeth rhwng eithafion llawenydd a thristwch, mewn byd fel hyn mae'n gysur mawr i wybod bod Crist wedi dod yn un ohonom, wedi ennill yr hawl i fod yn ben ar bopeth, a'i fod yn mynd i weithredu ei arglwyddiaeth pan ddaw yn ôl.

Bydd popeth a phawb, bryd hynny, yn cael ei fesur yn ôl mesur Crist, ac rwy'n awyddus iawn i fod yn rhan o'i fyd newydd Ef, oherwydd ni allem gael neb tebyg iddo fel pen a llywodraethwr.